**RHYBUDD o Benderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith yn y cyfarfod a gynhaliwyd yn yr Ystafell Bwyllgor ac yn rhithiol drwy Zoom ar ddydd Mawrth, 16 Mehefin 2026**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Iau, 18 Mehefin 2026. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Iau, 25 Mehefin 2026. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Gwener, 26 Mehefin 2036.

**Presennol**: Y Cynghorwyr Robin Williams (Dirprwy Arweinydd) (Yn y Gadair), Neville Evans, Dyfed Wyn Jones, Carwyn Jones, Alun Roberts, Dafydd Roberts a Nicola Roberts

**Hefyd yn bresennol**: Y Cynghorwyr Jeff Evans, Glyn Haynes, Kenneth Hughes, Aled M. Jones, Sonia Williams.

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorwyr Gary Pritchard (Arweinydd), Ieuan Williams

(10:00 y. b. tan 10:50 y. b.)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Cofnodion**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 24 Mawrth 2026 fel rhai cywir.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Amherthnasol** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Amherthnasol** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Blaen Raglen y Pwyllgor Gwaith**<br>Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i diweddaru am y cyfnod Gorffennaf 2026 i** |

| | |
|---|---|
| | **Chwefror 2027 gyda'r newidiadau a nodwyd yn y cyfarfod.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I gryfhau atebolrwydd a threfniadau blaen gynllunio** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Monitro'r Cerdyn Sgorio – Chwarter 4, 2025/26**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Digidol, Perfformiad a Moderneiddio |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd derbyn adroddiad monitro'r cerdyn sgorio ar gyfer Chwarter 4 2025/26 a nodi'r meysydd y mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn eu harchwilio ac yn ymchwilio iddynt er mwyn rheoli a sicrhau gwelliant pellach yn y dyfodol. Roedd y meysydd hyn yn ymwneud â Gofal Cymdeithasol a Llesiant (ail-gyfeirio plant o fewn 12 mis); Tai (ail-osod eiddo gwag, gwireddu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl – addasiadau canolig a mawr, a datblygu tai Cyngor newydd); yr Economi (nifer y contractau angori blynyddol); Newid Hinsawdd (ailgylchu gwastraff o'r cartref) ac Iechyd Cyngor Cyfan (ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn unol â'r amserlen).** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Adnabod a mynd i'r afael â meysydd o fewn y Cyngor sy'n tanberfformio.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 Dogfen Gyflawni Flynyddol 2026/27** |

| | |
|---|---|
| | Adroddiad gan y Pennaeth Digidol, Perfformiad a Moderneiddio |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd mabwysiadu'r Dogfen Gyflawni Flynyddol ar gyfer 2026/27 i'w chyflawni yn ystod 2026/27.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amlinellu rhaglen waith gynlluniedig y Cyngor ar gyfer 2026/27 sy'n cefnogi amcanion strategol Cynllun y Cyngor 2023-28** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 Monitro'r Gyllideb Refeniw - Alldro 2025/26**<br>Adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br>• **Nodi'r sefyllfa a amlinellir yn Atodiadau A, B ac C yr adroddiad mewn perthynas â pherfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro a ragwelir ar gyfer 2025/26.**<br>• **Nodi'r crynodeb o gyllidebau wrth gefn ar gyfer 2025/26 y manylir arnynt yn Atodiad CH.**<br>• **Nodi'r modd y caiff costau asiantaeth ac ymgynghorwyr eu monitro ar gyfer 2025/26 yn Atodiadau D a DD.**<br>• **Nodi'r crynodeb o sefyllfa a gwariant y Gronfa Cost Newid ar gyfer 2025/26 yn Atodiad E.**<br>• **Nodi bod amcangyfrif o falansau cyffredinol y Cyngor ar 31 Mawrth 2026 yn £18.949m.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Monitro perfformiad y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2025/26.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |

| | |
|---|---|
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |